Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

# Ystadegau Medr

## Addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol, Awst 2023 i Orffennaf 2024


| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod:** | Sta/Medr/06/2025 |
| **Dyddiad:** | 27 Chwefror 2025 (wedi’r ddiwygio 03 Hydref 2025) |
| **Dynodiad:** | Ystadegau Swyddogol (gweler y newid i statws ystadegau achrededig) |
| **E-bost:** | ystadegau@medr.cymru |



**Crynodeb:** **Ystadegau ar nifer y dysgwyr, y rhaglenni a'r gweithgareddau a gyflawnir mewn colegau, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a darpariaeth dysgu cymunedol awdurdodau lleol.**


**Thema:** Addysg bellach, prentisiaethau, dysgu cymunedol

**Ffynhonnell:** Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR)


Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Crynodeb

Mae’r adroddiad hwn yn crynhoi rhai o’r tueddiadau allweddol mewn addysg bellach, a phrentisiaethau.

Tynnwyd ystadegau dysgu oedolion yn y gymuned o fersiwn wreiddiol y datganiad hwn oherwydd problemau'n gysylltiedig ag ansawdd data. Mae ymchwiliad wedi cael ei gynnal i hyn a'r gwallau wedi'u cywiro. Mae'r daenlen gysylltiedig a thablau StatsCymru bellach wedi'u diweddaru ag ystadegau dysgu oedolion yn y gymuned. Mae Adroddiadau ar Ddeilliannau Dysgwyr ar gyfer partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned hefyd wedi cael eu cyhoeddi. Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei ddiweddaru drwy gynnwys y prif fesurau, ond nid yw'n cynnwys dadansoddiad manwl.

Gweler yr wybodaeth am Ansawdd a methodoleg am fanylion.

## Prif bwyntiau

- Roedd 166,385 o ddysgwyr mewn addysg bellach, dysgu cymunedol awdurdodau lleol, prentisiaethau neu ddarpariaeth dysgu arall seiliedig ar waith yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24 (diwygiwyd).
- Mae niferoedd dysgu rhan-amser yn gwella, ar ôl dirywiad hir.
- Bu gostyngiad o 5% yn nifer y prentisiaethau a ddechreuwyd, o gymharu â’r flwyddyn gynt.
- Mae prentisiaethau Lefel 3 ar gynnydd, a phrentisiaethau sylfaen yn gostwng, o gymharu â’r flwyddyn gynt.
- Mae mwy o ddysgwyr yn astudio o leiaf yn rhannol yn Gymraeg.
- Bu cynnydd mewn gweithgareddau Paratoi am Fywyd a Gwaith.
- Bu cynnydd yng nghanran y cyrsiau dysgu seiliedig ar waith a ddilynwyd gan ddysgwyr o gefndiroedd lleiafrifol ethnig heblaw Gwyn.
- Mae dysgwyr a gafodd brofiad o amddifadedd yn ystod yr ysgol uwchradd yn llai tebygol o ddilyn cymwysterau Safon Uwch.

## Nodyn

Ceir data manylach ar y daenlen atodol ac yn nhablau StatsCymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth nad yw wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn, fel:

- Rhanbarth cartref
- Prif anhawster dysgu neu anabledd
- Mesur targed prentisiaeth
- Cyrchfan yn syth ar ôl dysgu seiliedig ar waith
- Darparydd unigol
- Lefel uchaf o gymhwyster cyn dechrau
- Lefel rhaglen a gweithgaredd
- Oriau dysgu dan arweiniad y gweithgaredd
- Maes pwnc yr is-sector

# Cynnwys

Crynodeb ........ 1
Prif bwyntiau ........ 1
Nodyn ........ 1
Dysgwyr ........ 3
Math o ddysgu a wnaed ........ 6
Cyfrwng Cymraeg ........ 11
Demograffeg ........ 13
Oedran ........ 13
Rhywedd ........ 14
Cefndir ethnig ........ 15
Amddifadedd ........ 17
Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg ........ 20
Dileu ystadegau dysgu cymunedol awdurdod lleol ........ 20
Datganiad Cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau ........ 21
Newid statws ystadegau achrededig ........ 22
Ystadegau cysylltiedig ........ 22
Y diweddariad nesaf ........ 23
Gwybodaeth gyswllt ........ 23


## Dysgwyr

Roedd 166,385 o ddysgwyr mewn addysg bellach, dysgu cymunedol awdurdodau lleol, prentisiaethau neu ddarpariaeth dysgu arall seiliedig ar waith yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24 (diwygiwyd).

Nid yw'r ystadegau yn yr adroddiad hwn yn cynnwys dysgwyr mewn chweched dosbarth ysgolion na phrifysgolion. Bydd ystadegau Addysg Uwch yn cael eu cyhoeddi ar wahân ar medr.cymru.

**Dysgwyr yn ôl math o ddysgu a darparydd**

Ffigur 1: Awst 2023 i Orffennaf 2024 (diwygiwyd).




Disgrifiad: Roedd 130,745 o ddysgwyr mewn colegau. Roedd yna 47,855 o brentisiaid, wedi'u rhannu rhwng colegau a darparwyr hyfforddiant eraill. Roedd 13,035 o ddysgwyr mewn dysgu cymunedol awdurdodau lleol.

[Nodyn 1]: Bydd rhai dysgwyr wedi astudio gyda sawl math o ddarparydd.


Data yn Nhabl 1.1 ar y daenlen atodol.

Mae addysg bellach yn cynnwys dysgwyr sy'n astudio Safon Uwch a chymwysterau cyffredinol eraill, yn ogystal â dysgwyr sy'n astudio cymwysterau galwedigaethol (er enghraifft cymwysterau BTEC).

'Mae 'dysgu arall seiliedig ar waith' yn cynnwys cymwysterau pontio i bobl sy'n gweithio gyda phlant mewn lleoliadau chwarae neu ofal plant.

**Mae niferoedd dysgu rhan-amser yn gwella, yn dilyn dirywiad hir**

Ffigur 2: Dysgwyr mewn addysg bellach ran-amswer yn ôl modd astudio a blwyddyn academaidd, Awst 2013 i Orffennaf 2024




Disgrifiad: Cyrhaeddodd nifer y dysgwyr mewn addysg bellach ran-amser ei bwynt uchaf mewn 7 mlynedd.

Data ar StatsCymru

Roedd y gostyngiad hirdymor mewn addysg bellach ran-amser yn deillio o ostyngiad mewn cyllid. Amharodd y pandemig ymhellach ar ddysgu.

Ysgogwyd y cynnydd mewn dysgu rhan-amser gan ddysgwyr rhwng 25 a 49 oed.

Y meysydd lle gwelwyd cynnydd mawr oedd Addysg Sylfaenol i Oedolion, Paratoi am Fywyd a Gwaith, a Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill.


**Mae addysg bellach amser llawn yn parhau i fod yn sefydlog**

Roedd 1,815 yn fwy o ddysgwyr mewn addysg bellach amser llawn yn 2023/24 nag yn y flwyddyn gynt.

Mae nifer y dysgwyr mewn addysg bellach amser llawn wedi aros rhwng 45,000 a 49,000 dros y degawd diwethaf.

**Bu gostyngiad o 5% yn nifer y prentisiaethau a ddechreuwyd**

Ffigur 3: Prentisiaethau a ddechreuwyd yn ôl blwyddyn academaidd, Awst 2013 i Orffennaf 2024




Disgrifiad: Bu gostyngiad o draean yn nifer y prentisiaethau a ddechreuwyd rhwng 2017/18 a 2021/22. Cafwyd adferiad bach y llynedd, ond gostyngodd y niferoedd yn 2023/24.

Data ar StatsCymru

Ers colli cyfraniadau o Gronfa Gymdeithasol Ewrop, cafwyd gostyngiad mewn cyllid prentisiaethau yng nghyllideb gros 2024/25. Dechreuwyd trafodaethau â darparwyr prentisiaethau ynghylch y gyllideb ddrafft ym mis Tachwedd 2023, ar arweiniodd at newid i gynlluniau a darpariaeth prentisiaethau o’r pwynt hwnnw.

Roedd y gostyngiad mewn prentisiaethau yn gysylltiedig â gostyngiad mewn prentisiaethau yn y meysydd canlynol:

- Prentisiaethau Sylfaen ac Uwch
- Iechyd, Gofal a Gwasanaethau Cyhoeddus
- Hamdden, Chwaraeon a Theithio
- Lletygarwch
- Gweithgynhyrchu
- Cyflogwyr canolig a chanddynt 50 to 249 o weithwyr
- Prentisiaethau’r sector preifat.

Roedd y gostyngiad yn arbennig o amlwg ymhlith dysgwyr â’r nodweddion canlynol:


- 20 i 49 oed
- Menywod
- Rhai a gyflogwyd am lai na blwyddyn gan eu cwmni cyn dechrau eu prentisiaeth
- Dysgwyr sy’n byw yn Ne Orllewin Cymru
- Rhai nad ydynt yn ymfudwyr.

Dechreuwyd 1,365 o brentisiaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol na’r flwyddyn gynt. Bu gostyngiad hefyd i ddechreuadau ar fframweithiau eraill sy’n gysylltiedig â Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae nifer y dechreuadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi amrywio rhwng y naill flwyddyn a’r nesaf.

## Math o ddysgu a wnaed

**Mae mwyafrif yr addysg bellach amser llawn o natur alwedigaethol**

Ffigur 4: Rhaglenni addysg bellach amser llawn mewn colegau yn ôl math a blwyddyn academaidd, Awst 2022 i Orffennaf 2024




Disgrifiad: Mae mwyafrif y dysgu galwedigaethol amser llawn mewn colegau yn is na lefel 3.

[Nodyn 1]: Ceir nifer fach o raglenni eraill sydd heb eu cynnwys yn y siart.

Data yn Nhabl 2.1 ar y daenlen atodol.

Casgliad o gymwysterau y mae dysgwr yn eu hastudio yw rhaglen. Rhaglen Safon Uwch nodweddiadol fyddai 3 Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru.


Mae rhaglenni galwedigaethol yn canolbwyntio ar ddysgu ar gyfer galwedigaeth benodol. Er enghraifft, rhaglen Lefel 1 mewn Peirianneg Fodurol.

Roedd ychydig o dan hanner y rhaglenni addysg bellach amser llawn yn lefel 3 (mae Safon UG/Uwch yn enghreifftiau o lefel 3).

Nid yw prentisiaethau wedi'u cynnwys yn y ffigurau hyn.

**Bu cynnydd mewn rhaglenni galwedigaethol rhan-amser**

Ffigur 5: Rhaglenni addysg bellach rhan-amser mewn colegau yn ôl math a blwyddyn academaidd, Awst 2022 i Orffennaf 2024 (diwygiwyd)




Disgrifiad: Dilynwyd dros 4,000 yn fwy o raglenni galwedigaethol rhan-amser yn 2023/24 nag yn y flwyddyn academaidd gynt.

[Nodyn 1]: Gall dysgwyr amser llawn ddilyn cyrsiau dysgu rhan-amser ochr yn ochr â'u rhaglenni amser llawn.

[Nodyn diwygio]: Cafodd 215 o raglenni Safon UG eu categoreiddio’n anghywir fel TGAU yn 2023/24. Cafodd 200 o raglenni Safon UG eu categoreiddio’n anghywir fel TGAU yn 2022/23.

Data yn Nhabl 2.1 ar y daenlen atodol.

Mae cyllid adfer dysgwyr wedi cael ei ddarparu i gydnabod bod pandemig Covid wedi amharu ar fywydau dysgwyr. Gan hynny, efallai y bydd angen cymorth ac arweiniad pellach arnynt i ddiogelu eu llesiant, i’w gwneud yn fwy gwydn, ac i’w galluogi i ennill eu cymwysterau.

Mae Cyfrifon Dysgu Personol yn anelu i gynorthwyo unigolion ledled Cymru i ennill sgiliau lefel uwch a fydd yn eu galluogi i fanteisio ar ystod ehangach o gyfleoedd swydd ac/neu gael swydd ar lefel uwch. Maent hefyd wedi’u dylunio i fod yn hyblyg, gan alluogi cyfranogwyr i benderfynu sut a phryd i astudio.

**Y prentisiaethau mwyaf cyffredin yw Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

Ffigur 6: Y 5 uchaf o blith rhaglenni a gyflawnwyd, neu brentisiaethau a ddechreuwyd yn ôl math o ddysgu, Awst 2023 i Orffennaf 2024

| Addysg bellach llawn-amser | Rhaglenni |
|---|---|
| 3 Lefel UG gyda Bacc Cymraeg | 3,320 |
| Adeiladu Lefel 2 | 2,460 |
| 3 Lefel A gyda Bacc Cymraeg | 1,975 |
| Adeiladu Lefel 1 | 1,545 |
| Astudiaethau Sylfaen Lefel 1 | 1,365 |

| Addysg bellach ran-amser | Rhaglenni |
|---|---|
| Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill | 10,325 |
| NVQ yn cael eu cyflwyno yn y gweithle | 10,055 |
| Adfer a Dilyniant Dysgwyr | 8,880 |
| TGAU Ailsefyll Mathemateg | 6,695 |
| Addysg Sylfaenol Oedolion | 5,975 |

| Dechreuadau prentisiaeth | Rhaglenni |
|---|---|
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2 | 3,355 |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 3 | 1,620 |
| Gweithgynhyrchu Peirianneg Lefel 3 | 915 |
| Rheolaeth Lefel 4 | 775 |
| Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 3 | 775 |

Disgrifiad: Y rhaglen addysg bellach amser llawn fwyaf cyffredin yw astudio 3 Safon UG ynghyd â Bagloriaeth Cymru. Ar gyfer addysg bellach ran-amser, y rhaglen fwyaf cyffredin yw Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill.


Data yn Nhablau 2.2 a 3.2 ar y daenlen atodol, ac ar StatsCymru

5 rhaglen ran-amser yw traean o'r holl raglenni addysg bellach rhan-amser a ddilynir. Yn yr un modd, y 5 prentisiaeth uchaf a ddechreuwyd sydd i gyfrif am draean o'r holl gyrsiau prentisiaeth a ddechreuwyd.

5 rhaglen sydd i gyfrif am bumed rhan o raglenni addysg bellach amser llawn.

### Bu cynnydd mewn gweithgareddau Paratoi am Fywyd a Gwaith

Ffigur 7: Gweithgareddau dysgu fesul maes pwnc sector a blwyddyn academaidd mewn colegau, a darparwyr hyfforddiant eraill, Awst 2022 i Orffennaf 2024




Disgrifiad: Y meysydd pwnc sector mwyaf cyffredin yw Paratoi am Fywyd a Gwaith; ac Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal.

[Nodyn 1]: Nid yw gweithgareddau 'generig' penodol-i-ddarparydd nad ydynt ar ffurf safonedig ledled Cymru wedi'u cynnwys yn y ffigur hwn.

Data yn Nhabl 3.1 ar y daenlen atodol.


Mae hanner y cynnydd mewn gweithgareddau Paratoi am Fywyd a Gwaith yn deillio o gynnydd mewn gweithareddau Lefel 2 City & Guild Sgiliau Hanfodol. Cyflawnir y rhain gan amlaf fel rhan o brentisiaethau.

Bu cynnydd o 13% mewn Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig. Gwelwyd y cynnydd yn bennaf mewn gweithgareddau Lefel 3, ac mewn gweithgareddau a oedd fel arfer yn cael eu cyflawni mewn addysg bellach ran-amser.

Gostyngodd gweithgareddau Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal rhyw fymryn, ond cynyddodd y gweithgareddau ym mron pob maes pwnc arall.

**Mae prentisiaethau Lefel 3 ar gynnydd, a phrentisiaethau sylfaen yn gostwng**

Ffigur 8: Prentisiaethau a ddechreuwyd yn ôl lefel a blwyddyn academaidd, Awst 2013 i Orffennaf 2024




Disgrifiad: Dechreuwyd 10,095 o brentisiaethau lefel 3, 7,690 o brentisiaethau sylfaen, a 3,840 o brentisiaethau uwch yn 2023/24.

Data ar StatsCymru

Y sectorau â'r twf mwyaf mewn prentisiaethau Lefel 3 ers 2021/22 oedd:


- Adeiladu
- Rheolaeth a Phroffesiynol
- Peirianneg.

Yn 2023/24 dyblodd nifer y prentisiaethau Lefel 3 Rheolaeth a Phroffesiynol o gymharu â'r flwyddyn gynt. Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn y fframwaith “Rheolaeth”.

## Cyfrwng Cymraeg

**Mae mwy o ddysgwyr yn astudio o leiaf yn rhannol yn Gymraeg**

Ffigur 9: Canran y gweithgareddau dysgu a gynhaliwyd yn ddwyieithog neu yn Gymraeg, yn ôl math o ddysgu a blwyddyn academaidd, Awst 2015 i Orffennaf 2024




Disgrifiad: Roedd 44% o weithgareddau dysgu seiliedig ar waith yn cael eu cyflwyno o leiaf yn rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Data ar StatsCymru (Addysg Bellach,Dysgu seiliedig ar waith)


Roedd mwyafrif helaeth (81%) y gweithgareddau dysgu a astudiwyd o leiaf yn rhannol yn Gymraeg yn cynnwys "ychydig" o ddysgu cyfrwng Cymraeg. Roedd 10% yn cael eu hastudio'n ddwyieithog, a dim ond 1% a astudiwyd yn gyfan gwbl drwy'r Gymraeg.

Mae’r cynnydd mewn dysgu cyfrwng Cymraeg yn deillio bron yn llwyr o gynnydd yn y gweithgareddau hyn sy'n cynnwys "ychydig" o Gymraeg.

Mae tudalennau canllawiau a gwasanaethau LLWR yn cynnwys gwybodaeth am sut y dylid cofnodi swm yr astudio cyfrwng Cymraeg.

**Hyd yn oed ymhlith siaradwyr Cymraeg rhugl, mae'r cynnydd mewn dysgu cyfrwng Cymraeg yn deillio o weithgareddau sy'n cynnwys "ychydig" o Gymraeg**

Ffigur 10: Canran y dysgu cyfrwng Cymraeg a ddarparwyd mewn gweithgareddau a gyflawnwyd gan siaradwyr Cymraeg rhugl mewn colegau, a darparwyr hyfforddiant eraill, yn ôl blwyddyn academaidd, Awst 2018 i Orffennaf 2024.




Disgrifiad: Mae canran y gweithgareddau dysgu a gyflawnir gan siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n cynnwys ychydig o ddysgu cyfrwng Cymraeg bron wedi dyblu dros y 6 blynedd diwethaf.

Data ar StatsCymru (Addysg Bellach,Dysgu seiliedig ar waith)

Cyflwynwyd dros 1 o bob 5 o weithgareddau a gyflawnwyd gan siaradwyr Cymraeg rhugl yn ddwyieithog. Ond mae hyn yn is na thair blynedd yn ôl.

Ni fu cynnydd mewn gweithgareddau a gyflwynir yn Gymraeg yn unig, nac mewn gweithgareddau sy'n cynnwys swm sylweddol o Gymraeg.

Gwelwyd y cynnydd mewn dysgu sy'n cynnwys "swm bach" o ddysgu cyfrwng Cymraeg hefyd ymhlith dysgwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl.


Mae'r 5 gweithgaredd sydd â'r nifer fwyaf o ddysgwyr yn dysgu o leiaf yn rhannol yn Gymraeg, yn cynnwys cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, tiwtorialau a Sgiliau Hanfodol Cymhwyso Rhif.

## Demograffeg

### Oedran

**Mae pobl yn astudio drwy gydol eu hoes**

Ffigur 11: Dysgwyr fesul 1,000 o bobl yng Nghymru yn ôl oedran a math o ddysgu, Awst 2023 i Orffennaf 2024




Disgrifiad: Roedd y rhan fwyaf o’r dysgwyr mewn addysg bellach amser llawn yn 16 neu’n 17 oed. Mae prentisiaethau ar eu huchaf ymhlith dysgwyr 18 oed, ond ceir llawer o ddysgwyr hŷn. Dysgwyr yn eu 30au sy'n dilyn addysg bellach ran-amser gan amlaf.


Data yn Nhabl 4.1 ar y daenlen atodol.

Aeth bron i 1 o bob 2 o bobl 16 oed yng Nghymru i addysg bellach amser llawn yn 2023/24.

## Rhywedd

**Mae dysgwyr benywaidd yn cyflawni tua 1 o bob 4 o weithgareddau STEM**

Ffigur 12: Canran y gweithgareddau dysgu a gyflawnwyd fesul rhywedd a maes pwnc sector mewn colegau, a darparwyr hyfforddiant eraill, Awst 2023 i Orffennaf 2024




Disgrifiad: Mae mwyafrif y gweithgareddau yn y rhan fwyaf o feysydd pwnc sector yn cael eu cyflawni gan ddysgwyr benywaidd.

[Nodyn 1] Diffinnir Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) fel Gwyddoniaeth a Mathemateg; Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu; Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig; Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid; Meddygaeth a Deintyddiaeth; Nyrsio a Phynciau a Galwedigaethau Cysylltiedig â Meddygaeth; Ymarferwyr TGCh; a Daearyddiaeth.

[Nodyn 2] Diffinnir y Dyniaethau fel y Celfyddydau, y Cyfryngau a Chyhoeddi; Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth; ac Ieithoedd, Llenyddiaeth a Diwylliant.

Data yn Nhabl 3.1 ar y daenlen atodol.

I raddau helaeth iawn, dysgwyr gwrywaidd sy'n dilyn cyrsiau Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu; Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig; a Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.


Mae merched yn fwy tebygol o ddilyn cwrs addysg bellach rhan-amser, dysgu cymunedol neu brentisiaethau. Mae’r prentisiaethau mwyaf cyffredin ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sy’n tueddu i gynnwys mwy o ddysgwyr benywaidd.

Mae dysgwyr gwrywaidd yn fwy tebygol o ddilyn cwrs addysg bellach amser llawn. Wrth sôn am addysg bellach amser llawn yn fan hyn, nid ydym yn cynnwys cyrsiau dysgu a ddilynir yn y chweched dosbarth.

## Cefndir ethnig

**Mae dysgwyr addysg bellach yn fwy amrywiol na phoblogaeth Cymru**

Ffigur 13: Canran y dysgwyr mewn addysg bellach yn ôl cefndir ethnig a blwyddyn academaidd, o gymharu â phoblogaeth cyfrifiad 2021 Cymru (16 i 64), Awst 2021 i Orffennaf 2024




Disgrifiad: Bu cynnydd yng nghanran y dysgwyr addysg bellach o gefndiroedd Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig, a hefyd dysgwyr o gefndiroedd Du, Du Cymreig, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Cymreig.

Data yn Nhabl 7.1 ar y daenlen atodol.


Ceir rhai rhesymau pam y gallai'r boblogaeth addysg bellach fod yn fwy amrywiol na'r boblogaeth oed gwaith.

Mae dysgwyr addysg bellach yn iau na’r boblogaeth oed gwaith, ac mae pobl iau yng Nghymru yn fwy tebygol o ddod o gyfres fwy amrywiol o gefndiroedd.

Mae addysg bellach hefyd yn cynnwys 15,690 o raglenni Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill. Mae'r rhaglenni hyn wedi'u cynllunio ar gyfer pobl nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf. Dim ond 28% o'r rhain a ddilynir gan ddysgwyr o grwpiau ethnig Gwyn. (Un enghraifft o grŵp ethnig Gwyn a gynrychioliwyd yw ffoaduriaid Wcrain).

**Mae dysgu seiliedig ar waith wedi dod yn fwy amrywiol**

Ffigur 14: Canran y dysgwyr mewn dysgu seiliedig ar waith yn ôl cefndir ethnig a blwyddyn academaidd, o gymharu â phoblogaeth cyfrifiad 2021 Cymru (16 i 64), Awst 2021 i Orffennaf 2024




Disgrifiad: Yn 2021/22, roedd dysgwyr mewn dysgu seiliedig ar waith yn llai amrywiol na phoblogaeth oed gwaith Cymru. Erbyn 2023/24, roedd dysgu seiliedig ar waith yn fwy amrywiol na phoblogaeth Cymru.


Data yn Nhabl 7.1 ar y daenlen atodol.

Roedd 1 o bob 3 dysgwr a ddilynodd Lefel 2 City & Guilds Ymarfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion) o gefndiroedd lleiafrifol ethnig (heb gynnwys lleiafrifoedd ethnig Gwyn). Cyflwynwyd dros 8,300 o'r gweithgareddau hyn i brentisiaid yn 2023/24.

## Amddifadedd

**Mae dysgwyr sy'n dilyn cwrs addysg bellach, prentisiaeth, a dysgu cymunedol yn fwy tebygol o fyw mewn cymdogaethau amddifadus.**

Ffigur 15: Canran y dysgwyr o bob degradd ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC), yn ôl math o ddysgu, Awst 2023 i Orffennaf 2024





Disgrifiad: Roedd 15% o ddysgwyr addysg bellach amser llawn yn byw yn y 10% o gymdogaethau mwyaf amddifadus yng Nghymru. Dim ond 7% oedd yn byw yn y 10% o gymdogaethau lleiaf amddifadus.

Data yn Nhabl 5.1 ar y daenlen atodol.

Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys data chweched dosbarth mewn ysgolion, na dysgu a ariennir yn breifat. Roedd y [dadansoddiad ad-hoc Dysgwyr unigryw mewn darpariaeth dysgu ôl-16 yn ôl degradd amddifadedd, Awst 2021 i Orffennaf 2022] yn dangos bod dysgwyr y chweched dosbarth yn llawer llai tebygol o fyw mewn cymdogaethau amddifadus.

**Mae dysgwyr a oedd yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim yn yr ysgol uwchradd yn llawer tebygol o ddilyn cwrs Safon Uwch**

Ffigur 16: Canran y rhaglenni addysg bellach amser llawn a ddilynwyd gan ddysgwyr mewn colegau a oedd yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim ar unrhyw bryd yn yr ysgol uwchradd, Awst 2023 i Orffennaf 2024




Disgrifiad: Y rhaglenni yn y colegau sydd â'r gyfran uchaf o ddysgwyr a oedd yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim ar unrhyw bryd yw Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill, TGAU, addysg bellach alwedigaethol, a rhaglenni mynediad i addysg uwch/bellach.

Nodyn 1: Nid yw'r ganran a fyddai wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar unrhyw bryd ond wedi'i chyfrifo'n seiliedig ar rai y gellid eu paru â chofnod ysgol uwchradd yng Nghymru. Mae'r gyfradd baru yn uwch ar gyfer dysgwyr iau.


Data yn Nhabl 2.1 ar y daenlen atodol.

Dull o fesur amddifadedd yr ardal yw cyfeirio at ddysgwyr sy'n byw mewn cymdogaethau amddifadus, yn hytrach na mesur o brofiad yr unigolyn o amddifadedd. Mae cymhwystra i gael prydau ysgol am ddim yn fesuriad procsi o brofiad yr unigolyn o amddifadedd.

Mae'r ddau fesuriad yn dangos patrymau tebyg. Dilynir 22% o raglenni Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill gan ddysgwyr o'r 10% o gymdogaethau mwyaf amddifadus.  Y ffigur yw 9% ar gyfer dysgwyr Safon Uwch.

**Mae gan 1 o bob 8 dysgwr anhawster dysgu neu anabledd**

Ffigur 17: Canran y dysgwyr sydd ag anhawster neu anabledd dysgu hunan-gofnodedig, mewn colegau, a darparwyr hyfforddiant eraill, Awst 2023 i Orffennaf 2024




Disgrifiad: Am y 6 mlynedd diwethaf, mae rhwng 12% a 13% o ddysgwyr mewn colegau, a hyfforddiant arall wedi bod ag anhawster dysgu neu anabledd.

[Nodyn 1] Yn y ffigur hwn byddai dysgwr yn cael ei gyfrif droeon o astudio gydag amryw o ddarparwyr o fewn yr un flwyddyn academaidd.

Data ar StatsCymru

Rhwng Awst 2018 a Gorffennaf 2020 cafwyd uchafbwynt o ran y dysgwyr ag anawsterau neu anableddau dysgu a ddilynodd gyrsiau dysgu mewn colegau. Gostyngodd hyn yn 2020/21, ond mae'r nifer bellach wedi gwella.

## Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Gweler y ddogfen atodol, *Ansawdd a methodoleg: Addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol* am wybodaeth fanwl.

## Dileu ac adfer ystadegau dysgu cymunedol awdurdod lleol

Fe’n hysbyswyd gan ddarparydd awdurdod lleol ar 25 Chwefror 2025 fod gwallau sylweddol yn y data a gyflwynwyd ganddo i Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) ar gyfer 2023/24, cyn rhewi data yn derfynol ym mis Rhagfyr 2024.

Oherwydd maint posibl y broblem, gohiriwyd cyhoeddi'r adroddiad hwn er mwyn dileu ystadegau Dysgu Cymunedol Awdurdodau Lleol, gan ddisgwyl ymchwiliadau pellach i faint y broblem ac unrhyw broblemau tebyg yn y data a gyflwynwyd gan ddarparwyr awdurdod lleol eraill.

Mae'n debygol y bydd ystadegau Dysgu Cymunedol Awdurdodau Lleol ar gyfer yr holl flynyddoedd cyn 2023/24 wedi'u gorgyfrif. O ganlyniad i hynny, ni ellir cymharu ffigurau o 2023/24 sy'n cynnwys data Awdurdodau Lleol ar gyfer Dysgu yn y Gymuned â blynyddoedd blaenorol.

Roedd un awdurdod lleol wedi bod yn cyflwyno data dysgu i Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) na ddylid bod wedi'u cynnwys. Mae'r awdurdod lleol wedi mynd ati i ganfod y data cywir ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24 ac rydym wedi dileu'r data anghywir o'n hystadegau. Datgelodd yr ymchwiliad fod y problemau ansawdd data hyn hefyd yn bodoli mewn blynyddoedd blaenorol, ond nid yw'r blynyddoedd hyn wedi cael eu cywiro.

Yn sgil y newid mae nifer y gweithgareddau dysgu a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol a oedd yn cyflenwi wedi gostwng o 4,915 i 620. Mae'r darparydd yn gyson wedi cyflwyno gweithgareddau yn eu miloedd ers o leiaf 2012/13. Mae'r newid yn gostwng cyfanswm y dysgwyr mewn addysg bellach, dysgu cymunedol awdurdodau lleol a dysgu seiliedig ar waith o 168,065 o ddysgwyr i 166,385.

Cynhaliom ymchwiliad i weld a allai'r broblem a godwyd effeithio ar awdurdodau lleol eraill. Cymharwyd nifer y gweithgareddau dysgu a ddarparwyd gan bob darparydd â lefelau cyllido, a chysylltu ag awdurdodau lleol â phatrymau afreolaidd. Ni chanfuwyd unrhyw broblemau.

Ariennir Dysgu Cymunedol Awdurdodau Lleol drwy'r Grant Dysgu Cymunedol. Yn y gorffennol bu'r grant yn ffynhonnell cymharol fach o gyllid. Yn wahanol i fathau eraill o ddysgu, ni chaiff data'r LLWR eu defnyddio i ddyrannu na dilysu'r dysgu a ddarperir drwy'r grant hwn. O ganlyniad i hyn, ceir mwy o botensial am broblemau'n gysylltiedig ag ansawdd data na fyddent yn effeithio ar addysg bellach na dysgu seiliedig ar waith.

O hyn allan, ar ddechrau'r cyfnod cyllido nesaf, bydd Medr yn newid i ddefnyddio Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru i adrodd a monitro yn erbyn darpariaeth y Grant Dysgu Cymunedol. Dylai ansawdd y data wella yn sgil hyn. Byddwn yn gweithio gyda darparwyr i sicrhau bod y data'n cael eu cofnodi'n gywir ar LLWR drwy roi arweiniad a chymorth pellach.

Rydym yn bwriadu defnyddio data a gasglwyd yn ystod gaeaf 2025 i gynnal asesiad pellach o ansawdd data awdurdodau lleol ar gyfer dysgu yn y gymuned.

## Datganiad Cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Caiff ein harferion ystadegol eu rheoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR). Mae'r OSR yn gosod y safonau ar gyfer dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer Ystadegau y dylai holl gynhyrchwyr ystadegau swyddogol gadw atynt.

Caiff ein holl ystadegau eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â nifer o ddatganiadau a phrotocolau, i gynyddu eu dibynadwyedd, eu hansawdd a'u gwerth. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Natganiad Cydymffurfiaeth Medr yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Mae'r ystadegau swyddogol hyn yn dangos y safonau a ddisgwylir o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus yn y ffyrdd canlynol.

**Dibynadwyedd**

Mae'r ystadegau hyn wedi'u cyhoeddi yn unol â Datganiad Cydymffurfiaeth Medr a'r polisi ar weld ystadegau swyddogol cyn eu rhyddhau.

**Ansawdd**

Daw'r data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a gyflwynir gan ddarparwyr dysgu. Defnyddir y data hyn hefyd i benderfynu ynghylch cyllid i ddarparwyr dysgu, ac maent yn destun archwiliad.

Pan gyflwynir y data, rhaid iddynt fodloni rhai rheolau dilysu. Pan gaiff yr ystadegau eu cynhyrchu cynhelir gwiriadau ansawdd gan yr ystadegwyr.

**Gwerth**

Cynhyrchir yr ystadegau hyn i roi cipolwg ar y ddarpariaeth dysgu yng Nghymru. Cânt eu defnyddio er mwyn monitro a gwerthuso'r sectorau dysgu oedolion, addysg bellach a dysgu yn y gwaith.

## Newid statws ystadegau achrededig

Cyhoeddwyd yr ystadegau hyn yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru fel Ystadegau Gwladol (a elwir bellach yn Ystadegau Swyddogol Achrededig). Gan fod yr ystadegau bellach yn cael eu cyhoeddi gan sefydliad newydd, mae'r statws Ystadegau Swyddogol Achrededig wedi'i ddileu dros dro.

Mae Medr wedi parhau â systemau a phrosesau Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhyrchu'r ystadegau, ac mae'r ystadegwyr sy'n cynhyrchu'r ystadegau'n cynnwys ystadegwyr a gynhyrchodd ystadegau addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol yn Llywodraeth Cymru.

Bydd y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR) yn asesu'r prosesau sydd ar waith ym Medr fel cynhyrchydd ystadegau swyddogol. Bydd yr OSR yn asesu a yw'r ystadegau'n bodloni'r gofynion ar gyfer Ystadegau Swyddogol Achrededig.

## Ystadegau cysylltiedig

Cyhoeddwyd adroddiadau cynharach yn y gyfres hon ar llyw.cymru.

Mae Myfyrwyr mewn addysg uwch: Awst 2023 i Orffennaf 2024 yn cynnwys gwybodaeth debyg ar gyfer Addysg Uwch a bydd yn cael ei chyhoeddi ar medr.cymru ymhen amser.

Mae Rhaglenni dysgu prentisiaethau a ddechreuwyd: Mai i Orffennaf 2024 yn cynnwys dangosfwrdd ac arnod ddadansoddiadau manwl o raglenni prentisiaeth a ddechreuwyd.

Caiff Mesurau deilliannau dysgwyr ar gyfer prentisiaethau a dysgu oedolion: Awst 2023 i Orffennaf 2024 ei gyhoeddi ar medr.cymru ar 12 Mawrth.

Mae Mesurau perfformiad cyson dysgu ôl-16 (cyflawniad), Awst 2023 i Orffennaf 2024 yn cynnwys deilliannau ar gyfer addysg bellach a bydd yn cael ei gyhoeddi ar medr.cymru yn ddiweddarach.

## Y diweddariad nesaf

**Dyddiad:** Chwefror 2026.

Cyfnod a drafodir: Awst 2024 i Orffennaf 2025.

Mae'n bosibl na fydd y diweddariad nesaf i'r ystadegau hyn ar yr un ffurf â'r adroddiad hwn.

## Gwybodaeth gyswllt

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn.

Gellir anfon adborth, cwestiynau, a cheisiadau am ddata pellach drwy e-bost i: ystadegau@medr.cymru

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru


2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**